# Cynhadledd yr Wyddfa
# Snowdon Seminar

Adroddiad ar y digwyddiad a gafodd ei alw ynghyd gan Bartneriaeth yr Wyddfa, i drafod cyfleoedd, materion, a'r camau nesaf

Report of the event convened by the Snowdon Partnership – Partneriaeth yr Wyddfa, to discuss opportunities, issues, and next steps



9fed Tachwedd, 2015. Llanberis

9th November, 2015. Llanberis

# CYNHADLEDD YR WYDDFA

Adroddiad ar y digwyddiad a gafodd ei alw ynghyd gan Bartneriaeth yr Wyddfa, i drafod cyfleoedd, materion, a'r camau nesaf.

*9 Tachwedd, 2015. Llanberis.*

## Mynegai


| | | Page |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 3 |
| 2. | Pwrpas y Gynhadledd | 4 |
| 3. | Rhaglen y Gynhadledd | 5 |
| 4 | Trosolwg Eang o'r Trafodaethau yn y Gynhadledd | 7 |
| | 4.1. Pwrpas y Bartneriaeth – ac ymateb y gynhadledd | 7 |
| | 4.2. Syniadau a materion a godwyd yn ystod y sesiynau galw heibio a'r gynhadledd | 8 |
| | 4.3. Cynnal a gwella cyfranogiad y Fforwm yng ngwaith y Bartneriaeth | 9 |
| 5 | Y Camau Nesaf | 10 |

## 1. Cyflwyniad

Nod y Gynhadledd oedd dod â cymunedau lleol a rhanddeiliaid at ei gilydd sydd â diddordeb yn nyfodol yr Wyddfa i drafod sut i fanteisio ar gyfleoedd a rheoli heriau a materion yn briodol. Roedd tua hanner o'r cyfranogwyr ddaeth i'r gynhadledd eisoes wedi bod i'r sesiynau galw heibio ym mis Hydref, ac roedd y gweddill oedd yn bresennol yn cymryd rhan am y tro cyntaf.

Rhoddwyd cyfle i bobl ystyried y Bartneriaeth, trafod y prif amcan a'r math o faterion a chylch gorchwyl a gynigiwyd gan bobl leol, tirfeddianwyr / deiliaid, grwpiau defnyddwyr a phobl eraill sydd â diddordeb.

Ceir yma drosolwg o'r digwyddiad, ynghyd â rhai o sylwadau a chyfraniadau'r rhai a oedd yno. Mae cofrestr lawn o'r pwyntiau a wnaed yn ystod y digwyddiad hwn, yn ogystal â'r tair sesiwn galw heibio a gynhaliwyd ym mis Hydref, a chyfraniadau rhanddeiliaid mewn negeseuon e-bost, ar Twitter, mewn llythyrau a dulliau eraill, ar gael ar wefan y Bartneriaeth: www.partneriaethyrwyddfa.co.uk

Bydd y deunydd yma yn cael eu trafod mewn manylder a bydd yn ffurfio craidd camau nesaf y Bartneriaeth. Bydd y cynnig yma yn cael ei anfon i rhanddeiliaid (drwy e-bost/post) sydd wedi bod yn rhan o'r broses hyd yn hun er mwyn cael adborth bellach. Bydd y Bartneriaeth wedyn yn ystyried unrhyw adborth/sylwadau cyn cyrraedd consensws ar y ffordd ymlaen. Bydd y Bartneriaeth hefyd yn edrych ar y deunydd er mwyn canfod unrhyw syniadau oedd â chefnogaeth gyffredinol eang y gellid bwrw ymlaen â nhw yn weddol sydyn.

Cynhelir ail gynhadledd cyn pen 12 mis. Bydd hwn yn gyfle i myfyrio ar gamau gweithredu a cyfleoedd a ffyrdd newydd o fynd i'r afael â materion sydd heb eu datrys. Bydd y fforwm yn un ffordd o adeiladu ar ymgysylltu rhwng rhanddeiliaid a'r Bartneriaeth.

## 2. Pwrpas y Gynhadledd

Pwrpasau gynhadledd oedd i:

1. Cyflwyno’r Bartneriaeth, ei nodau a’i dyheadau
2. Edrych ar waith y cyfranogwyr yn ystod y digwyddiad galw heibio er mwyn tynnu sylw at faterion a heriau y dylai'r Bartneriaeth eu hystyried
3. Cytuno ar y ffyrdd y byddai'r gymuned leol, tirfeddianwyr / deiliaid a rhanddeiliaid yn hoffi bod yn rhan o waith y bartneriaeth
4. Cytuno ar y camau nesaf

## 3. Rhaglen y Gynhadledd

| Amser | Sesiwn *(nod)* | Pwrpas / Manylion |
|---|---|---|
| 18.30 | **Cyrraedd a lluniaeth** | **Lluniaeth a sgwrsio / rhwydweithio anffurfiol (Roedd y paneli a gafodd eu harddangos yn ystod y digwyddiadau galw heibio ar gael i'w harchwilio, ynghyd ag arddangosfeydd nifer o bartneriaid)** |
| 19.00 | **Croeso a chyflwyniadau** | Estynnodd Catrin Ellis Jones, yr hwylusydd, groeso i'r cyfranogwyr a disgrifiodd bwrpas y sesiwn a'r arddull gweithio.<br><br>Estynnodd **Helen Pye, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)** groeso i'r cyfranogwyr ar ran y Bartneriaeth a cyflwyno'r Partneriaid cyfredol. |
| 19.20 | **Cyflwyno Partneriaeth yr Wyddfa a'i nodau** | **Emyr Williams, Prif Weithredwr APCE**<br><br>Disgrifiodd bwrpas drafft y Bartneriaeth, y cyd-destun a'r sbardunau sy'n ysgogi Partneriaid i ddod at ei gilydd a chydweithio'n agosach. Amlinellwyd i'r cyfranogwyr yr ardal ddaearyddol y mae'r Bartneriaeth yn canolbwyntio arni, ynghyd â'r ymrwymiad hirdymor i gymryd camau cadarnhaol. Wrth i'r Bartneriaeth aeddfedu, ei nod fydd datblygu ymatebion rhagweithiol i'r amodau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol newidiol sy'n effeithio ar ardal yr Wyddfa, ac edrych ar sut y gallwn addasu a / neu liniaru ar gyfer y cyfnod newidiol hwn (e.e. y cynnydd ym maint ac amlder y digwyddiadau a gynhelir yma, ymddygiad pobl, newid hinsawdd ac yn y blaen). |
| 19.30 | **Disgrifiad cryno o'r materion a godwyd yn ystod y sesiynau galw heibio** | Trosolwg o'r materion a amlygwyd yn ystod y sesiynau galw heibio, sy'n cynnwys:<br>• **Cynefinoedd, rhywogaethau ymledol a phynciau perthynol**,<br>• **Materion cynllunio a galluogi datblygiadau priodol**<br>• **Digwyddiadau ac ymddygiad y bobl sy'n ymwneud â hwy**<br>• **Traffig, parcio a chludiant cyhoeddus**<br>• **Mynediad, llwybrau troed / ceffylau a chyfeirbwyntio**<br>• **Iaith, treftadaeth, addysgu ymwelwyr**<br>Nodwyd bod nifer o'r cyfleoedd a'r materion a godwyd yn cydberthyn, ac o dan bob thema codwyd sbectrwm o faterion ac atebion o rai y gellir mynd i'r afael â hwy yn gymharol hawdd, gyda mesurau cymharol syml a chost-effeithiol y gellir eu gwneud yn gyflym, i faterion sy'n adlewyrchu newidiadau cymdeithasol, gwleidyddol ac amgylcheddol sydd wedi dod i'r amlwg dros amser ac y bydd angen eu hystyried yn ofalus os mynnir dod o hyd i atebion cynaliadwy. |
| 19.45 | **Myfyrio wrth y byrddau** | Roedd y myfyrio a'r trafodaethau grŵp wrth y byrddau yn canolbwyntio ar:<br>• Pwrpas ac aelodaeth y Bartneriaeth<br>• Y prif ymatebion i'r ystod o faterion a godwyd yn ystod y digwyddiadau galw heibio. |

| | | |
|---|---|---|
| 20.15 | **Cyfranogiad lleol yn y Bartneriaeth?** | Sesiwn lawn yn disgrifio rhai o'r cyfleoedd a gynigiwyd gan gyfranogwyr y sesiynau galw heibio ar gyfer cymryd rhan yng ngwaith y bartneriaeth yn y dyfodol.<br>Amlinellwyd hefyd gynnig i dreialu "rhoddion ymwelwyr" yn lleol. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr ystyried a fyddai Partneriaeth yr Wyddfa yn gyfrwng da i reoli'r cynllun hwn, a'r mathau o fentrau y gallai'r arian hwnnw gyfrannu atynt? |
| 20.25 | **Myfyrio wrth y byrddau** | Trafodaethau mewn grwpiau bychain |
| 20.45 | **Adborth y sesiwn lawn** | Adborth y sesiwn lawn i rannu blas o drafodaethau'r byrddau |
| 20.50 | **Camau nesaf** | Amlinellodd **Gwynedd Watkin, Farmers Union Wales (FUW) and Catherine Williams, Snowdonia Active** gamau nesaf y Bartneriaeth:<br>• Edrych ar yr allbynnau o'r sesiynau galw heibio a'r gynhadledd er mwyn dechrau datblygu cynllun sy'n mynd i'r afael â'r materion rydych wedi awgrymu atebion cymharol syml iddynt, yn ogystal â materion blaenoriaeth eraill, sydd efallai yn fwy heriol neu lle gall yr atebion fynnu camau gweithredu ar lefel wahanol e.e. polisi cenedlaethol, adnabod ymddygiad sy'n peri problemau ac ystyried sut i'w newid<br>• Galw digwyddiad arall y fforwm cyn pen 12 mis |
| 21.00 | **Diolch a diwedd** | Estynnwyd gwahoddiad i'r cyfranogwyr aros fymryn yn hirach i gymryd rhan mewn trafodaethau anffurfiol pellach |

## 4. Trosolwg Eang o'r Trafodaethau yn y Gynhadledd

Ar ôl cyflwyniadau cychwynol, dechreuodd y Gynhadledd gyda trafodaeth eang ar bynciau amrywiol. Un o'r pryderon a amlygwyd gan nifer o dirfeddianwyr oedd bod y Bartneriaeth yn bwriadu dweud wrthynt sut i reoli eu tir. Ceisiodd y Partneriaid fynd i'r afael â'r pryderon hyn drwy:

- Cadarnhau mai nod y Bartneriaeth oedd helpu mynd i'r afael a unrhyw faterion cyffredin, gan gynnwys rhai sy'n effeithio tirfeddianwyr, gyda llawer ohonynt o ganlyniad i bwysau ymwelwyr ar yr ardal.
- Ail-adrodd bod cynlluniau eraill eisoes ar waith sy'n ymwneud â rheoli tir h.y. Glastir, ac felly bod hyn tu hwnt t i rôl y Bartneriaeth.
- Ail-adrodd nad oedd yr ymgynghoriad yma yn ymwneud mewn unrhyw ffordd â'r Papur Gwyrdd diweddar ar Mynediad i Gefn Gwlad: "Gwella'r cyfleoedd i gael mynediad i'r awyr agored ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol", a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru.

### 4.1. Pwrpas y Bartneriaeth – ac ymateb y gynhadledd

Gofynnwyd i gyfranogwyr y gynhadledd ystyried datganiad o ddiben y Bartneriaeth:

"Pwrpas y Bartneriaeth yw gweithio gyda'r gymuned leol, tirfeddianwyr / deiliaid a rhanddeiliaid i bennu materion a heriau ardal Yr Wyddfa. Bydd y Bartneriaeth yn gweithredu atebion rhagweithiol, ymarferol"

Roedd nifer o bobol yn y gynhadledd yn teimlo bod y datganiad o ddiben y Partneriaethau yn rhy negyddol ac y dylai ganolbwyntio ar gyfleoedd cadarnhaol yn ogystal â datrys problemau drwy weithredu'n ymarferol, hyrwyddo gweithio cydgysylltiedig ac osgoi dyblygu ymdrechion. **Mae'r Bartneriaeth wedi golygu eu diben fel a ganlyn:**

"Pwrpas y Bartneriaeth yw gweithio gyda'r gymuned leol, tirfeddianwyr / deiliaid a rhanddeiliaid i bennu materion, heriau a chyfleoedd ardal Yr Wyddfa. Bydd y Bartneriaeth yn gweithredu atebion rhagweithiol, ymarferol"

Roedd yr awgrymiadau ynghylch aelodaeth y Bartneriaeth yn cynnwys gwahodd cyfranogiad gan gynrychiolwyr o'r gymuned leol / Cynghorau Cymuned, cynrychiolwyr o grwpiau defnyddwyr megis y BMC, BHS a'r BCU, cynrychiolwyr o'r diwydiant twristiaeth, yr ymddiriedolaethau bywyd gwyllt a CADW.

**Bydd y Bartneriaeth yn adolygu ei haelodaeth ynghyd â nodau a rhyngweithiadau y Bartneriaeth craidd a fforwm ehangach.**

**4.2. Syniadau a materion a godwyd yn ystod y sesiynau galw heibio a'r gynhadledd**

Gellir gweld adroddiad llawn o'r syniadau a'r materion yn www.partneriaethyrwyddfa.co.uk Gallwch ofyn am gopïau caled trwy Helen Pye d/o Parc Cenedlaethol Eryri.

Isod ceir blas o'r pynciau a godwyd ac a drafodwyd gan randdeiliaid:

- Mynegodd nifer o'r cyfranogwyr bryder ynglŷn â'r cynnydd yn nifer yr ymwelwyr, a'r effaith bosibl ar wytnwch ehangach yr ardal.
- Mewn cyferbyniad, awgrymodd eraill y dylid dathlu ac annog y sylw cynyddol ar yr Wyddfa. Cyfeiriwyd at fanteision mewn perthynas â denu mwy o ymwelwyr, gan gynnwys y cyfraniad at yr economi leol, a chefnogi swyddi a seilwaith sy'n caniatáu i bobl gael mwy o fynediad at wasanaethau diwylliannol a hamdden.
- Nododd tirfeddiannwr / deiliaid mai dim ond lleiafrif bychan o'r rhai sy'n mwynhau mynediad i'r mynydd sy'n achosi problemau megis peidio â chau giatiau, peidio â chadw at y llwybrau, peidio â rheoli cŵn yn briodol; serch hynny, wrth i'r niferoedd ar y mynyddoedd gynyddu, mae effaith y lleiafrif bychan hwn yn dwysáu ac yn ymddangos yn fwy aml.
- Roedd ymdeimlad cryf nad yw rhai sy'n dod i'r mynydd yn deall bod llawer o'r tir yn eiddo preifat ac yn cael ei reoli'n breifat, ac felly nid ydynt yn dangos y parch priodol.
- Nodwyd hefyd sut y mae'r mathau o weithgareddau hamdden ar y mynydd wedi dod yn fwy amrywiol, a bod cynnydd mewn digwyddiadau a drefnwyd yn golygu bod niferoedd mwy a mwy o bobl yn cael perthynas fwy arwynebol â'r mynydd a'i nodweddion nag erioed o'r blaen.
- Tynnwyd sylw at y ffaith y gellid gwella effeithiolrwydd a "defnyddioldeb" cynllun amaeth-amgylcheddol Glastir a mecanweithiau eraill.
- Gafodd y cyfle i adlewyrchu ac archwilio amrywiaeth o syniadau a materion a ddaeth i'r amlwg o'r sesiynau ei groesawu, ac y byddai amser i fyfyrio ac archwilio materion ar y cyd yn helpu pobl sydd ar hyn o bryd yn arddel blaenoriaethau gwahanol i ddod o hyd i dir cyffredin a gweithio gyda'i gilydd. Mae yna enghreifftiau o arfer da a arddangoswyd mewn rhannau eraill o'r D.U. ac Ewrop y gallai Partneriaeth yr Wyddfa ddysgu ohonynt.
- Teimlai nifer o bobl y byddai'r broses hon yn gyfle gwych i nodi'r weledigaeth ar gyfer y mynydd mewn 5,10, 20, a hyd yn oed 50 mlynedd o amser.
- Roedd rhai cyfranogwyr wedi enwi eu blaenoriaethau ar gyfer sylw'r Bartneriaeth fel:
    - gweithredu i leihau erydiad a chynnal a chadw llwybrau troed;
    - annog mwy o barch at dir preifat, er enghraifft trwy ddefnyddio arwyddion sydd wedi'u lleoli'n strategol;
    - gwella cludiant cyhoeddus cydgysylltiedig;
    - galluogi tirfeddianwyr i leihau'r pwysau parcio trwy creu parcio dros dro ar eu tir nhw;

- annog defnyddwyr y mynydd i baratoi'n briodol ar gyfer profiadau mynydd i wneud y profiad yn fwy pleserus, ac yn fwy diogel;
- gwella cyfleoedd dysgu ar y mynydd i bobl iau, yn enwedig pobl ifanc lleol;
- gwella dulliau cyfathrebu â threfnwyr a chyfranogwyr digwyddiadau ar raddfa fawr.

### 4.3. Cynnal a gwella cyfranogiad y Fforwm yng ngwaith y Bartneriaeth

Roedd y rhan fwyaf o'r bobol oedd yn bresennol yn frwdfrydig ynglŷn â'r angen am fewnbwn ehangach i lywio ac arwain gwaith ac ymagwedd y Bartneriaeth.

Roedd yr awgrymiadau am y mecanweithiau i alluogi pobl i gyfrannu syniadau, adrodd am faterion, amlygu cyfleoedd ac ati yn cynnwys:

- Gwe-fforwm / e-bost / ffurflen ar y we lle gall pobl gyfrannu ar unrhyw adeg h.y. heb orfod aros i ddigwyddiadau gael eu trefnu.
- Dod â grwpiau arbenigol at ei gilydd i drafod themâu penodol – e.e. sut i annog twristiaeth a mwy o wariant ymhlith ymwelwyr; rhoddion ymwelwyr; cyfleoedd addysgol, mynediad.
- Dylai sesiynau galw heibio yn y dyfodol hefyd gynnwys digwyddiadau ar benwythnosau.
- Dylai digwyddiadau'r fforwm alluogi pobl i siarad gyda phobl a mynegi amrywiaeth o safbwyntiau. I alluogi hyn byddai mwy o amser a lleoliad mwy yn briodol.

## 5. Y Camau Nesaf

Dyma beth fydd y Bartneriaeth yn eu gwneud nesaf:

